**Cofnodion Cyfarfod CCG 2.22 Neuadd Cymuned Glantwymyn**

**19:462: Presennol**: Gareth Wyn Jones (Cadeirydd), Deryck Lewis, Bedwyr Fychan, Iwan Jones, Rhodri Wigley, Glyn Jones, Gwenfair Rhys-Davies, Paul Hughes, Huw Williams, Aled Griffiths, Gareth Owen, Sandra Evans (Clerc)

**19:463: Ymddiheuriadau**: Dafydd Evans, Gwen Lloyd, William Owen

**19:464: Datganiadau o ddiddordeb**: Bedwyr Fychan - Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Urdd Gobaith Cymru

**19:465: Cyflwyno a derbyn cofnodion Chwefror** Cynigiwyd ei bod yn gywir gan a Gareth Owen ac fe'i heiliwyd gan Deryck Lewis. Nodwyd mai Reast yw cyfenw Sarah, CC Llanbrynmair

**19:466:** Adroddiad y Clerc: Cynhaliwyd cyfarfod ger gorsaf bwmpio Cwmlline. Mynychodd Deryck Lewis Gareth Wyn Jones, Elwyn Vaughan a Paul Bufton. Cyngor Sir Powys, Richard Evans Pysgodfeydd Dyfi. Bydd y Cyngor yn dal i fonitro'r sefyllfa a hysbysir Dŵr Cymru a CNC yn syth os bydd problemau.

**19:467:** Cynllunio- 23/0271/HH Codi garej unllawr: Fronfelen House, Corris, Machynlleth, Powys SY20 9TF. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad gan y Cyngor.

**19:468: Materion Ariannol ac eitemau i'w talu:**

- Cyflog y Clerc Ionawr mis 10 £302.40 Cynigiwyd y dylid talu hwn gan Huw Williams ac fe'i heiliwyd gan Aled Griffiths
- **WR Partners – Cyfrifon ar gyfer yr Awdit allanol £1,551**

Nodwyd nad oedd anfoneb lawn a manwl wedi cael ei derbyn er ei cheisio. Gofynnir amdano eto er atebolrwydd yn yr awdit nesaf. Er bod anfodlonwrydd parhaus gyda WR am ei waith ynglyn â'r awdit penderfynwyd y dylid talu hwn gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Gwenfair Rhys-Davies.

- Neuadd Glantwymyn £1500 Cynigiwyd y dylid talu hwn gan Huw Williams ac fe'i heiliwyd gan Bedwyr Fychan
- Cypyrddau ar gyfer dffibrilwyr Penderfynwyd prynu cypyrddau newydd gan elusen Jack's Appeal gan y bydd y pris yn cynnwys gosod trydan. Cysylltir â William Owen ac Alex Burnham Tŷ Capel Darowen i fynegi diolch y Cyngor am gael defnyddio'r lleoliadau hyn.
- Cypyrddau Ffeiliau Penderfynwyd peidio â chael cwpwrdd gwrthdan achos y gost ychwanegol. Prynir rhai cyffredin gan naill ai Viking Direct neu Office Supplies, y Drenewydd
- Meinciau – Prynir mainc newydd i Gemaes gan nad oes modd trwsio'r llall. Cynigiwyd hyn gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Bedwyr Fychan.
- Aelodaeth Un Llais Cymru cynigiwyd y dylid talu hwn gan Glyn Jones ac fe'i heiliwyd gan Paul Hughes

**19:469:** Trefnu archwilwyr mewnol ar gyfer 2022-2023. Mae anfodlonrwydd cyson y gan Gyngor gyda WR mewn perthynas â'r awdit. Penderfynwyd bwrw ymlaen gyda'r trefniadau i benodi cyfrifwyr eraill sef Mr Geraint Cartwright o gwmni Davies Lewis Baker, Aberystwyth. Mae Mr Cartwright eisoes wedi nodi nad oes angen awdit mewnol helaeth ar gyfer cynghorau bach a'i fod felly yn rhagweld y bydd y costau'n sylweddol llai na'r costau cyfredol. Bydd yn gallu cynnig pris mwy manwl ar ôl trafod a gweld y gwaith. Cynigiwyd hyn gan Bedwyr Fychan ac fe'i heiliwyd gan Gareth Owen. Nodwyd bod y Cyngor yn ddiolchgar i Mr Cartwright am ymgymryd â'r gwaith. Nodwyd hefyd bod y Cyngor wedi chwilio ers tro a gwneud sawl ymholiad cyn penodi Mr Cartwright gan ateb y gofynion cyfreithiol.

**19:470:** Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (2016) Bydd y clerc yn paratoi adroddiad draft.

**19:471: Pennu Elusennau**

Cynigiwyd y byddai Urdd Gobaith Cymru yn achos teilwng gan fod tua 200 o bobl ifanc gan gynnwys disgyblion cynradd ac uwchradd ac aelwydydd yn elwa'n uniongyrchol Ar sail rhoi £10.00 y pen ar gyfer y bobl ifanc hyn byddai swm o £2,000. Cynigiwyd hyn gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Paul Hughes. Telir y swm dros ddwy flynedd. Cynigiwyd hyn gan Gwenfair a chytunwyd yn unfrydol. Nodwyd pa mor werthfawr yw'r Urdd i les cymdeithas yr ardal.

Elusennau eraill a gysylltodd â'r Cyngor i ofyn am gyfraniadau yw Cruise Ceredigion, Marie Curie, Macmilllan ac Ambiwlans Awyr Cymru. Penderfynwyd gohirio'r penderfyniad am elusennau ychwanegol tan y cyfarfod nesaf.

**19:472**: **Tocio coed yn Llanwrin**. Penodwyd Mr. Jon Anderson i wneud y gwaith ar ôl wirio bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn ei lle.

**19:473:** Ciosg Cemaes gosodir hysbysiad yn Nhŷ Cemaes i ddweud os na fydd neb eisiau defnyddio'r ciosg y bydd yn cael gwared ohono.

**19:474:** Hysbysfwrdd Llanwrin Penderfynwyd gohirio'r penderfyniad gan nad oedd gwybodaeth lawn eto wedi cyrraedd gan CC cadfarch a Chris Barnett.

**19:475**: Gohebiaeth: Derbyniwyd neges gan y Parch Miriam Beecroft. Mynegwyd pryderon am goeden ywen ym mynwent Llanwrin yn cael effaith andwyol ar wal ddwyreiniol yr eglwys a mainc Cemaes. Nodwyd na fydd yr eglwys yng Nghymru'n cyfrannu at gostau adfer wal eglwys Llanwrin.

**19:476: Adroddiadau'r Cynghorwyr**

**Llywodraethwyr Ysgol Glantwymyn - Rhodri Wigley.** Mynychodd Rhodri gyfarfod Llywodraethwyr yn ddiweddar.

**19:477: Materion Priffyrdd a Phontydd:**

- Layby Dorcorslwyn - Mae ysbwriel yn hel yma eto.

**19:478: Materion eraill**

- Mynegwyd diolch y Cyngor i Elwyn Vaughan am ei waith diwyd fel Cynghorydd Sir a'r budd a ddaw i gymunedau lleol o achos hynny.
- Penderfynwyd gofyn i Heather a fyddai'n bosib i'r Cyngor gyfarfod yn gyson yn y gegin gan ei bod yn gynhesach ac yn dawelach yn fwy hwylus yn gyffredinol.
- Presenoldeb Cynghorwyr a threfn ymddiheuriadau -Tynnwyd sylw at y rheol na ddylid colli mwy na 6 chyfarfod yn olynol heb reswm dilys heb golli sedd ar y Cyngor. Dylid hefyd rhoi gwybod i'r clerc neu'r Cadeirydd mewn da bryd os bydd angen ymddiheuro ag eithio argyfwng. Yn gyffredinol dylid cysylltu cyn gynted ag y bo modd er mwyn osgoi canslo cyfarfodydd ar ôl i bawb ymgynull achos diffyg cworwm. Diolch i'r sawl sy'n ufuddhau i'r rheolau hyn yn gyson.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.45.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Iau 23.2.22

**Ymddiriedolaeth y Melinau Gwynt**

- Derbyniwyd cais am arian tuag at boiler yn neuadd Cemaes gan y byddai'n fuddiol i aelodau'r gymdeithas a Thraed Bêch Twymyn ill dau. Penderfynwyd cyfrannu……sef y gost lawn Cynigiwyd hyn gan Paul Hughes ac fe'i heiliwyd gan Gwenfair Rhys-Davies.
- Cafwyd cais am arian gan Traed Bêch Twymyn yng ngoleuni costau cynyddol- yn benodol mewn perthynas â thrydan. Penderfynwyd gohirio'r penderfyniad tan y tro nesaf pan fyddai mwy o er mwyn cael mwy o amser i ystyried a chael mwy o wybodaeth gerllaw. Gwahoddir Einir i'r cyfarfod nesaf i egluro ymhellach.

Cysylltir â chwmni EDF fel mater o frys i ofyn iddynt adolygu'r cyfraniad gan fod galw cynyddol am nawdd yn y gymdeithas gan gynnwys y cais uchod sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag ynni.
Nodwyd cymaint y mai elw cwmnioedd ynni wedi cynyddu'n ddiweddar a nodwyd hefyd y byddai'n bosib y bydd cwmniau megis EDF yn awyddus i gynyddu maint ei melinau gwynt yn y dyfodol yn sgil polisiau gwyrdd yn cael eu hargymell gan lywodraethau. Ystyriwyd y byddai'r gymuned yn fwy parod i gefnogi'r fath ddatblygiadau pe byddai'r cyfraniadau i'r gymuned yn adlewyrchu'r cynnydd mewn elw yn fwy cytbwys. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cefnogi'r melinau gwynt ers y cychwyn yn y 90au ond ni welwyd dim cynnydd ers hynny.
Cynigir cyfarfod â chynrychiolydd EDF i drafod.